**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**RHONDDA CYNON TAF**

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd Dydd Llun, 14 Mai 2018 am 1.00 pm ym Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd G Hopkins (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber Y Cynghorydd J James
Y Cynghorydd S. Rees-Owen

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms W Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned
Mr S Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg
E Siôn, Menter Iaith

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

### 14 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Cadeirydd i gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

Cafodd ymddiheuriadau eu derbyn gan y Cynghorydd J. Rosser, y Cynghorydd R. Bevan, C. Hanagan ac E.Thomas.

### 15 DATGAN BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd S. Rees-Owen fuddiant personol yn Eitem 3 - Adolygiad o Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg, 'Rydw i wedi gweithio ar gytundeb llawrydd gyda 'It's My Shout'. Mae gwaith partneriaeth 'It's My Shout' wedi'i amlinellu ar dudalen 54 yr adroddiad.

### 16 COFNODION

**PENDERFYNODD** y Grŵp Llywio gymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2017.

### 17 ADOLYGIAD - STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cymuned ddiweddariad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a gafodd ei gymeradwyo ar 25 Ionawr, 2017.

Rhoddodd y swyddog gefndir y Strategaeth i'r Grŵp Llywio. Dywedodd fod y Cynllun wedi cael ei ddatblygu o dan Adran 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyhoeddi o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'i ddatblygu yn ystod 2016 mewn partneriaeth â Sbectrwm, Menter Iaith, Gwasanaethau'r Cyngor ac Aelodau Etholedig. Ymgynghorwyd â'r cyhoedd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2016 er mwyn deall yr hyn a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg a pha wasanaethau roedden nhw o'r farn yw'r rhai mwyaf pwysig o ran hybu'r iaith.

Atgoffwyd yr Aelodau mai ffocws y Cynllun Gweithredu oedd:

- Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 3%
- Cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus, a
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd De Cymru.

Siaradodd y swyddog am y camau cadarnhaol a gafodd eu cymryd o fewn RhCT i gyflawni'r camau gweithredu, gan gyfeirio at Atodiad 1 yr adroddiad, lle roedd y cynnydd yn erbyn targedau ar gyfer pob maes gwasanaeth unigol yn fanwl. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod y gyfran o staff sy'n siarad Cymraeg wedi cynyddu o 2% yn y flwyddyn gyntaf.

Cafodd yr Aelodau eu hysbysu bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei strategaeth hyrwyddo *Cymraeg 2050* ym mis Gorffennaf 2017. Roedd hyn yn amlinellu targed o gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru o 78% erbyn 2050. Yn dilyn gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud eisoes gan y Cyngor ac er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru, byddai angen i'r Cyngor gynyddu'r ganran o siaradwyr Cymraeg o 1.66% y flwyddyn hyd 2021. Mae amlinelliad o'r ffigyrau yn adran 5.13 o'r adroddiad. Cyfeiriodd y swyddog yr Aelodau at adran 2 yr adroddiad ac argymhellodd fod y Grŵp yn cytuno ar darged uwch ar gyfer tyfu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad cynhwysfawr, gan ychwanegu ei bod yn bleser gweld faint o waith sydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â'i darged a'i fod mewn sefyllfa dda i gynyddu'r nifer.

Mynegodd y Dirprwy Arweinydd bryderon ynghylch y targed, gan ddweud ei bod hi'n anoddach cyrraedd oedolion gydag ychydig neu ddim profiad o ddefnyddio'r iaith. Serch hynny, ychwanegodd y Dirprwy ei bod hi'n gwbl gefnogol i'r cynnydd arfaethedig. Tynnodd sylw at bwysigrwydd targedu plant ifainc a allai ddatblygu eu medrau dros gyfnod hir. Roedd yr Aelod yn falch o weld bod cymariaethau wedi cael eu gwneud gyda Chynghorau Merthyr Tudful a Chaerdydd ac roedd hi'n teimlo y byddai'n ddefnyddiol ymestyn ymhellach i Gynghorau fel Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr i wella dealltwriaeth a dulliau o weithio'r cynghorau yma.

Croesawodd Ms E Siôn y cynnydd arfaethedig yn y targed, gan bwysleisio'r angen i roi rhagor o ystyriaeth i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r angen i ystyried sut mae'r Cyngor yn gallu cefnogi partneriaid ymhellach i gynyddu eu darpariaeth ac i gynyddu'r nifer o ddefnyddwyr. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cymuned fod Estyn wedi tynnu cwestiynau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg yn ôl yn yr arfarniadau hunanasesu. Yn hytrach mae'n ystyried yr iaith fel rhan o bob cwestiwn. Cafodd ei gytuno y byddai'r ddau

swyddog yn trafod y materion yma'n dilyn y cyfarfod.

Roedd y Cynghorydd S. Rees-Owen hefyd yn canmol yr ymdrechion y mae'r Cyngor wedi'i wneud i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, gan roi sylwadau ar rwydwaith mewnol y Cyngor, 'Inform', sydd wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys offer a thempledi defnyddiol i wella dulliau Aelodau Etholedig a staff o weithio.

Siaradodd y Cynghorydd hefyd am gyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc lle bu'r Aelodau'n ystyried y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a phenderfynodd yr Aelodau i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y targedau sydd wedi cael eu gosod a pha rai ohonyn nhw sydd wedi cael eu cyrraedd. Derbyniodd y Cadeirydd wahoddiad i fynychu'r cyfarfod ym mis Mehefin i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNODD** y Grŵp Llywio:

a) Nodi cynnwys yr adroddiad;
b) Cytuno ar darged newydd o 1891 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf yng ngoleuni Strategaeth Llywodraeth Cymru: 'Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' a gafodd ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017.
c) Parhau i fwrw 'mlaen gyda'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu cytunedig cyfredol.
d) Bod Ms E Siôn, Menter Iaith, a Phennaeth y Gwasanaethau Cymuned yn cyfarfod y tu allan i'r cyfarfod i drafod Arolwg Estyn o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned a ffyrdd i gynllunio'n strategol.

**18 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL - Y GYMRAEG**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau'r Gymraeg, Adroddiad Cydymffurfio Safonau'r Iaith Gymraeg 2017 – 2018 i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a oedd yn cynnwys yr ail flwyddyn o weithredu'r safonau.

Cafodd Aelodau'r Grŵp llywio eu cyfeirio at Atodiad 1 o'r adroddiad, sy'n amlinellu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud gan y Cyngor i gydymffurfio â nifer fawr o safonau sydd wedi cael eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg. Rhoddodd y swyddog wybod bod safonau 52, 58 a 64 wedi eu gohirio tan 31 Mawrth, 2018. Felly, bydden nhw'n cael eu cynnwys yn adroddiad cydymffurfiaeth y flwyddyn nesaf.

Esboniodd y swyddog ei fod yn ddyletswydd statudol ar y Cyngor i gyhoeddi adroddiad blynyddol ac i'w ddosbarthu i'r cyngor. Yn ogystal â chynnwys y safonau; roedd yr adroddiad wedi'i wneud yn fwy tryloyw trwy amlinellu:

(1) nifer y cwynion a gafodd eu derbyn yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r canlynol: (i) darparu gwasanaethau (ii) llunio polisïau (iii) safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw
(2) nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw
(3) nifer yr aelodau o staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw
(4) canran yr aelodau o staff a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw

(5) nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu hysbysu yn ystod y flwyddyn lle - (i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, (ii) roedd hi'n ofynnol dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl dechrau yn y swydd, (iii) roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu (iv) doedd dim angen sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Nododd y swyddog fod camgymeraid ar dudalen 84 yn yr adroddiad, gan gadarnhau mai '2017-18 (Ebrill 2018)' dylai llinell gyntaf y testun y tu allan i'r blwch ddarllen.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog a'i dîm am eu gwaith caled cyson yn yr hyn a fu'n her sylweddol, gan esbonio bod adnoddau wedi'u cynyddu i sicrhau y byddai safonau'n parhau i gael eu diwallu. Canmolodd y Cadeirydd y tryloywder o gynnwys y cwynion yn yr adroddiad, gan ddweud, gyda newid, eu bod yn anochel, ond roedd yn falch mai dim ond 12 a gafodd eu derbyn a chafodd y cyfan eu hateb yn ystod y cam anffurfiol.

Holodd y Cynghorydd J. James am y broses gwyno ac os yw'n ffurfiol neu dim ond yn fater o gofnodi datganiadau. Dywedwyd bod y cyfeirnod CSG yn golygu bod y cwynion yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at y Comisiynydd. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu trin yn ffurfiol gan y broses gyfreithiol.

Canmolodd y Dirprwy Arweinydd y cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Diolchodd hefyd i'r staff sy'n gweithio'n galed i sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ddwyieithog ac mewn modd proffesiynol.

Gyda'r Grŵp yn cytuno bod amrywiaeth o lwybrau hyfforddi ar gael i Aelodau Etholedig a staff, gan arwain at gynnydd o 2% o siaradwyr Cymraeg yn y Cyngor, cafwyd trafodaethau ynglŷn â recriwtio a'r cynlluniau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi. Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymuned am fentrau cadarnhaol sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod rhaid i bob aelod newydd o staff fynychu dosbarth Cymraeg sylfaenol lefel 1 gyda'r bwriad o wella eu sgiliau'n barhaus, p'un a ydynt yn cael eu cyflogi ar Lefel Cyfarwyddwr neu'n is. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymraeg ei fod wedi bod yn gweithio'n agos â'r adran Adnoddau Dynol a bod pob manyleb swydd sy'n cael ei hysbysebu o'r newydd yn gofyn bod sgiliau iaith Gymraeg yn 'hanfodol'. Byddai yna i fyny i bob Rheolwr Gwasanaeth i roi rhesymau dros pam ddylai hyn gael ei newid i 'dymunol'.

Yn dilyn y sylwadau cadarnhaol **PENDERFYNODD yr Aelodau:**

a) Nodi cynnwys yr adroddiad;
b) Cyhoeddi'r adroddiad ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a sicrhau ei fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2018 fan bellaf a;
c) Cymeradwyo trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r cyhoedd bod yr adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi.

## 19 MATERION BRYS

Cododd Ms E Siôn, Menter Iaith, bryderon ynghylch system adrodd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Eglurodd bod cynllun gweithredu adeiladol ar waith cyn i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau i'r ffordd yr adroddwyd ar y

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Serch hynny, gan fod rhai elfennau o'r cynllun wedi cael eu diddymu, mae'n fwy anodd i weithredu cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg.

**PENDERFYNWYD:**

a) Y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng y Cadeirydd, yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, y Cyfarwyddwr Addysg a Ms E Siôn, Menter Iaith er mwyn trafod ffordd strategol ymlaen a;
b) Bod y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymraeg, yn gwahodd y Cynghorydd Hopkins i gyfarfod nesaf y Grŵp Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a fyddai'n digwydd ar 21 Mehefin, 2018 i drafod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.45 pm**

**Cllr G Hopkins**
**Cadeirydd.**